Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan
# Teras Tan-y-lan
# Treforys
# Abertawe
# SA6 7DU

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2015**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan gan awdurdod lleol Abertawe yn 2011, fel ateb i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg yn y ddinas.  Lleolir yr ysgol yn Nhreforys ar gyrion dinas Abertawe.

Ar hyn o bryd, mae 137 o ddisgyblion rhwng 3 ac 9 oed ar y gofrestr.  Maent wedi'u trefnu'n bum dosbarth sy'n cynnwys 30 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin rhan amser ac un dosbarth oed cymysg yng nghyfnod allweddol 2.  Nid oes disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6.  Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.  Daw tua 10% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 20% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n is na chyfartaledd Cymru.  Mae oddeutu 20% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).  Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan yn 2015-2016 yn £3,589 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Abertawe yw £5,006 a'r lleiafswm yw £2,556.  Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan yn y 19eg safle o'r 79 ysgol gynradd yn Sir Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2011 pan agorwyd yr ysgol.  Dyma arolygiad cyntaf yr ysgol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- bod bron pob disgybl yn teimlo'n hollol ddiogel ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff am gyngor a chymorth
- ei bod yn darparu ystod eang o brofiadau cynhwysfawr a diddorol
- bod gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu
- ei bod yn trefnu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad lles ei disgyblion
- bod ganddi drefniadau cadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- bod iddi ethos croesawgar a chynnes
- ei bod yn gymuned gynhwysol a gofalgar

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth wedi cynnwys yr holl randdeiliaid wrth greu gweledigaeth glir a chytûn ar gyfer yr ysgol
- bod y llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda
- bod ganddi weithdrefnau hunanarfarnu trylwyr sy'n seiliedig ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol
- bod partneriaethau cadarn yn bodoli gyda rhieni a gofalwyr a bod bron pob un ohonynt yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored
- ei bod wedi ei staffio'n effeithiol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- ei bod yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella dealltwriaeth disgyblion o’r hyn maent yn ei ddarllen

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella’r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn fwy rheolaidd

A4 Sicrhau bod yr addysgu’n hybu dysgu annibynnol disgyblion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion, wrth ddechrau yn yr ysgol, yn llawer is na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da ym mhob un o'r meysydd dysgu, yn enwedig yn eu defnydd o'u medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn gwneud cynnydd da.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn eiddgar. Maent yn siarad yn gynyddol gywir am eu gwaith, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau llafaredd Saesneg yn llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen cychwynnol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio strategaethau priodol i gadarnhau ystyr ac yn dangos dealltwriaeth addas o'r prif bwyntiau. Mae'r disgyblion mwy abl yn lliwio'r mynegiant yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn briodol i'w hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion mwy abl yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio mynegiant priodol. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sy'n medru trafod amrywiol destunau ac ateb cwestiynau'n effeithiol ynglŷn â'r llyfrau maent yn eu darllen.

Mae mwyafrif o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar yn y Gymraeg. Maent hefyd yn gwneud cynnydd cychwynnol effeithiol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu geirfa syml wyddonol i ddisgrifio priodweddau deunyddiau. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion yn gynyddol gywir. Maent yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio atalnodau yn hyderus wrth ysgrifennu ffurfiau amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu i ystod gynyddol o bwrpasau yn y ddwy iaith yn ôl eu gallu. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth bwrpasol o ffurfiau gwahanol o ysgrifennu; er enghraifft, maent yn creu sgript chwedl Pwyll a Rhiannon yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig wedi ei ddatblygu'n llawn. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith ysgrifenedig ar y cyfan, yn daclus ar draws yr ysgol.

Mae medrau'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwiliol yn dda yn eu gwaith ar draws y pynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Gallant gyfrif yn hyderus, ac maent yn adnabod yr amser a siapiau 3D yn llwyddiannus. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae gan y disgyblion mwy abl ddealltwriaeth glir o strategaethau rhifedd ac maent yn defnyddio'r strategaethau hyn yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad i'r archfarchnad, maent yn datrys problemau arian yn hyderus. Maent yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn briodol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gynyddol gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo'r medrau yn fwy cyson mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, cyfrifo faint o ddŵr sydd angen ar gyfer un teulu i nôl o'r ffynnon ddŵr yn Affrica.

Gan fod yr ysgol yn gymharol newydd, dim ond data perfformiad dros ddwy flynedd sydd ar gael, a hynny ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen. Oherwydd bod maint y carfannau'n fach ar gyfer y ddwy flynedd, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail y data hwn. Dengys cofnodion olrhain mewnol yr ysgol bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu well na'r disgwyl.

O gymharu ag ysgolion tebyg, dros ddwy flynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch mewn llythrennedd wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf. Mewn datblygiad mathemategol, mae'r perfformiad wedi gostwng o'r 50% uwch i'r 25% isaf.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig nac ar y lefel uwch na'r disgwyl dros gyfnod o amser. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â'u cyfoedion.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff am gyngor a chymorth. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, a gwneud ymarfer corff yn ystod gwersi, ac yn y clwb ar ôl ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau ac mae safonau ymddygiad ar y cyfan yn dda. Maent yn dal ati i gwblhau eu tasgau gydag annibyniaeth gynyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol tuag at agweddau o'r thema ac yn dechrau ymateb i sylwadau'r athrawon yn llwyddiannus. Maent yn datblygu eu medrau i wella eu gwaith eu hunain yn briodol. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu rôl yn effeithiol fel cyfeillion y buarth ac maent yn annog eraill i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn dechrau datblygu eu rôl yn briodol. Hyd yn hyn, maent wedi creu a gweithredu rheolau'r buarth ac archebu offer chwaraeon i hwyluso amseroedd chwarae. Mae'r disgyblion hŷn wedi trefnu gweithgaredd ysgol gyfan i godi arian ar gyfer elusen glanhau dŵr yn Affrica. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar

ddatblygu medrau bywyd y disgyblion. Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol sy'n ehangu eu gwybodaeth a'u cyfraniad i'w cymuned leol.

Er eu bod yn dechrau gwella, mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi bod yn is na'r cyfartaledd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cynhwysfawr a diddorol sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ymwreiddio'n llwyddiannus ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae'r athrawon yn cynllunio themâu cyfoes ac yn sicrhau dilyniant effeithiol ar ddysgu blaenorol. Ceir cyfleoedd cyson a phriodol i ddatblygu medrau allweddol disgyblion ac maent yn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol. Er bod y cynllunio yn drwyadl ar y cyfan, nid yw bob amser yn sicrhau cydbwysedd pynciol. Mae gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol, er enghraifft, i warchodfa natur leol, yn cefnogi'r themâu yn dda ac yn ymestyn medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r disgyblion yn effeithiol.

Caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n dda. Mae'r athrawon yn bwydo model iaith gyfoethog i'r disgyblion yn gyson yn y gwersi ac yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt ymarfer patrymau iaith newydd. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pwyslais addas ar y Cwricwlwm Cymreig yn y cynlluniau gwaith.

Trwy gyfrwng themâu dosbarth, er enghraifft ymchwilio i effaith sefydlu ffynnon ddŵr yn Affrica a gweithgareddau elusennol, mae cyfleoedd priodol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol gyfan yn dechrau ymddwyn yn gynaliadwy drwy ailgylchu.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn lled gadarn ar draws yr ysgol. Mae pob un o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r disgyblion ac maent yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i gefnogi unigolion penodol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio adnoddau yn effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Ar ddechrau gwersi, maent yn rhannu amcanion gwersi yn glir gyda'r disgyblion ac yn eu hadolygu'n effeithiol ar y diwedd. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog ac maent yn holi'n bwrpasol i helpu disgyblion i ddatblygu medrau meddwl da a gwella eu cyfranogiad a'u cynnydd mewn gwersi.

Mewn ychydig ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae tueddiad gan athrawon i arwain y disgyblion yn ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Nid yw athrawon bob amser yn rheoli ymddygiad yn ddigon effeithiol.

Mae prosesau asesu'r ysgol yn effeithiol. Mae gan y staff wybodaeth gadarn am gyrhaeddiad y disgyblion. Defnyddir y wybodaeth honno i gynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu'r unigolyn, ac mae athrawon yn defnyddio strategaethau amrywiol er mwyn targedu'r medrau i'w gwella. Mae ymateb athrawon i waith disgyblion yn rheolaidd ac adeiladol, a chaiff disgyblion gyfle priodol i ymateb. Mae hyn, ynghyd â thechnegau eraill asesu ar gyfer dysgu, yn galluogi disgyblion i ddeall eu dysgu eu hunain, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Caiff pob rhiant wybodaeth reolaidd am gynnydd eu plentyn, a gosodir targedau pwrpasol ar y cyd â'r disgyblion yn gyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae wedi ei threfnu'n effeithiol, ac mae'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu lles ei disgyblion. Gwneir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Trwy gyfrwng gweithgareddau elusennol, gwasanaethau ac ymweliadau, mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Mae gweithgareddau diwylliannol fel cyngherddau, ac yn fwy diweddar, cymryd rhan yn eisteddfod yr Urdd, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu gwerthoedd yn dda ac mae'r cyfleoedd boreol i gael 'sgwrs sydyn' yn cyfrannu'n effeithiol tuag at les y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol ac arbenigwyr yr awdurdod lleol i sicrhau cefnogaeth mewn meysydd fel iechyd, hyder, ymddygiad, a chyflawniad.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth effeithiol iddynt. Mae'r athrawon a'r disgyblion yn cydweithio ar y cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi profiadau dysgu a lles cyffredinol y disgyblion. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gwerthuso unrhyw gynnydd yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un croesawgar a chynnes. Mae'r gymuned yn gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel a chydweithiant yn effeithiol iawn gyda'i gilydd a chydag oedolion.

Rhoddir pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol.

Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ystafell ddosbarth ac mae staff yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i wella dysgu disgyblion. Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn cefnogi'r dysgu ac yn arddangos amrywiaeth priodol o waith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r safle a'r adeilad yn cyflwyno amrywiaeth o heriau yn strwythurol ac yn gorfforol. Maent yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac i safon ddiogel a chadarn. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnwys ystod o offer pwrpasol ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol a chorfforol y disgyblion. Mae disgyblion iau'r Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd helaeth o'r ardaloedd hyn ar gyfer chwarae a dysgu. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wneir o'r ardal allanol i hyrwyddo dysgu gweddill disgyblion yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Wrth sefydlu'r ysgol o'r newydd, mae'r pennaeth wedi cynnwys yr holl randdeiliaid i greu gweledigaeth glir a chytûn ac wedi gosod seiliau cadarn i'w galluogi i gyrraedd ei llawn dwf mewn ychydig flynyddoedd. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r dirprwy bennaeth sydd hefyd yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol. Nodwedd amlwg o'r ysgol yw'r gwaith tîm llwyddiannus. Mae hyn oll wedi creu ethos cryf a chynhwysol lle gwerthfawrogir pob disgybl fel unigolion.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn gosod targedau realistig i aelodau staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r staff yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau hunanarfarnol gan ganolbwyntio'n briodol ar faterion a nodir fel rhai sydd eu hangen er mwyn gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff fel cyfrwng effeithiol i drafod cynllunio a chynnydd disgyblion yn rheolaidd. Cyfranna hyn oll yn effeithiol tuag at godi safonau ar lawr y dosbarth ac at adnabod anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r defnydd o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio'r medrau ar draws y cwricwlwm wedi eu plethu'n bwrpasol ar draws y themâu. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda. Trwy dderbyn adroddiadau'r pennaeth a chynnal ymweliadau rheolaidd i werthuso'r ddarpariaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o effeithiolrwydd y gweithgareddau ar safonau a lles y disgyblion. Maent yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Mae hyn wedi arwain yn ddiweddar at ddatblygu llais y disgyblion drwy sefydlu'r cyngor ysgol ac ehangu ymwybyddiaeth y disgyblion am hawliau plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu trylwyr sy'n seiliedig ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arfarniadau monitro trylwyr i werthuso safonau, ac ansawdd yr addysgu

a’r dysgu. Maent hefyd yn ystyried barn y rhieni a’r llywodraethwyr yn rheolaidd, ac adolygiadau tymhorol gan asiantaethau addysgol allanol. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn crynhoi cryfderau’r ysgol yn gywir ac yn nodi meysydd y mae eu hangen gwella.

Mae’r trefniadau i fonitro safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth o fewn yr ysgol yn cynnig adnabyddiaeth glir o gryfderau a mannau sydd angen eu gwella. Defnyddir deilliannau’r weithdrefn hunanarfarnu yn effeithiol i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun gwella, gyda ffocws clir ar godi safonau.

Mae cysylltiad clir rhwng y meysydd i’w datblygu a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu a’r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn nodi’r hyn sydd angen ei wella yn glir. Nodir camau gweithredu, ynghyd â chyllid perthnasol ac amserlen cychwyn a gorffen. Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd y flwyddyn flaenorol, er enghraifft trwy wella safonau ysgrifennu a datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau cadarn yn bodoli gyda rhieni a gofalwyr ac mae bron pob un ohonynt yn gwerthfawrogi polisi drws agored yr ysgol. Cesglir barn y rhieni’n gyson, a thrwy ymateb i holiaduron, mae’r ysgol yn cynnal sesiynau i hysbysu am faterion cwricwlaidd, clwb ‘Hwyl Teulu’ a chlwb gweithgareddau ar ôl yr ysgol. Mae’r gymdeithas rhieni’n weithgar ac yn cyfrannu’n ariannol yn flynyddol ar gyfer darparu adnoddau, er enghraifft i ehangu profiadau cymdeithasol y disgyblion ar y buarth.

Mae partneriaethau buddiol yn cryfhau gyda’r gymuned leol ac mae’r disgyblion i gyd yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig yn y capel lleol sy’n hybu eu medrau chyfathrebu yn effeithiol. Ceir cysylltiad adeiladol hefyd gyda’r ganolfan arddio leol. Mae’r disgyblion yn elwa’n fawr o ymweliadau oddi ar safle’r ysgol fel y ganolfan dechnolegol yng Nghaerdydd. Mae’r ysgol yn dechrau croesawu ymwelwyr i siarad am eu gwaith, er enghraifft bardd i siarad am farddoni.

Mae’r berthynas agos sy’n bodoli gyda’r ddarpariaeth Dechrau’n Deg a sefydlwyd gan yr ysgol yn helpu’r plant ieuengaf i ymgartrefu’n gyflym. Caiff y bartneriaeth hon effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.

Mae’r paratoadau i drosglwyddo disgyblion ymhen dwy flynedd i’r ysgol gyfun Gymraeg gyfagos eisoes wedi cychwyn. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda o fewn y clwstwr o ysgolion lleol i rannu syniadau a dulliau o addysgu fel llythrennedd a rhifedd. Mae’r gweithgareddau i sicrhau cysondeb o fewn safoni a chymedroli asesiadau athrawon hefyd yn cyfrannu’n effeithiol at ddealltwriaeth athrawon o lefelu gwaith, ac at wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi’r addysgu a’r dysgu. Mae cyfraniad a chefnogaeth y cymorthyddion dosbarth yn effeithiol yn yr ysgol. Maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu’n gadarnhaol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol y staff.  Mae hefyd yn ymateb yn llawn i ofynion statudol lleihau baich gwaith athrawon.  Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu cynnydd disgyblion.  Mae'r trefniadau hyn yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei hamcanion a'i blaenoriaethau yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu bwrpasol.  Mae yna ychydig o rwydweithiau sy'n cynnig cyfleoedd priodol i athrawon gydweithio ag athrawon eraill yn y clwstwr.  Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar les ac ar wella medrau iaith a rhifedd y disgyblion.

Er mwyn ymateb yn effeithiol i sefyllfa ddatblygol yr ysgol, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau gofalus ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.  Mae gwariant ar gyfer cynnal yr ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn dda.  Mae gwarged yr ysgol yn eu galluogi i wneud trefniadau priodol ar gyfer cyfarfod a datblygu'r ysgol ymhellach y flwyddyn nesaf.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 24 | 23<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 24 | 20<br>83% | 4<br>17% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 23<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 24 | 24<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 24 | 23<br>96% | 1<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 24 | 23<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 24 | 24<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 24 | 23<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 24 | 22<br>92% | 2<br>8% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 23 | 16<br>70% | 7<br>30% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 22 | 17<br>77% | 5<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 24 | 22<br>92% | 2<br>8% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 43 | 23 | 16 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 37% | 9% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 43 | 30 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 42 | 29 | 13 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 43 | 26 | 14 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 40 | 13 | 24 | 3 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 60% | 8% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 42 | 27 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 42 | 31 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 41 | 20 | 17 | 4 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 49% | 41% | 10% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 39 | 21 | 14 | 2 | 2 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 54% | 36% | 5% | 5% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 41 | 19 | 19 | 3 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 46% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 43 | 20 | 17 | 4 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 9% | 5% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 39 | 23 | 12 | 4 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 59% | 31% | 10% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 43 | 19 | 17 | 6 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 44% | 40% | 14% | 2% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 42 | 22<br>52% | 12<br>29% | 5<br>12% | 3<br>7% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 37 | 17<br>46% | 9<br>24% | 8<br>22% | 3<br>8% | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 39 | 21<br>54% | 18<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 11<br>41% | 13<br>48% | 0<br>0% | 3<br>11% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 42 | 14<br>33% | 18<br>43% | 7<br>17% | 3<br>7% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 42 | 17<br>40% | 18<br>43% | 6<br>14% | 1<br>2% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Rayanne Rogers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin Pugh Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.